

❖ TREULIAU'R NADOLIG

Er nad oeddwn yn clustfeinio ar y sgwrs rhwng dwy ddynes yn yr uwchfarchnad, ni allwn beidio â chlywed un cwestiwn gan y naill i'r llall, sef, 'Shwd 'ych chi'n bwriadu treulio'r Nadolig 'leni?' Ond fel Pilat ganrifoedd yn ôl yn holi beth yw gwirionedd a heb aros am ateb, felly minnau o dan amgylchiadau tra gwahanol yn efelychu'r rhaglaw byr ei dymer. Ond cofier nad i mi yr oedd y cwestiwn wedi'i ofyn ac felly ni ddylwn oedi ennyd i wrando ar yr ateb.

Mae'r cwestiwn serch hynny yn un amserol a phriodol inni ofyn i'n gilydd ac inni ein hunain. *Gwario'r Nadolig* y mae'r Sais yn ôl ei eirfa, ond ei *dreulio* wna'r Cymro, ond mae'r ddau cystal â'i gilydd mewn *gorwario* ar gyfer yr ŵyl. Er na fynnem warafun i neb gael difyrrwch a hwyl a llawenydd, gall miri droi'n faswedd a chyfeillach ddirywio'n gyfeddach. A gall y rhai sy'n arfer sobrwydd fod yn anghymedrol yn eu moethusrwydd.

Fodd bynnag, rhag inni rygnu gormod ar nodau cras ynglŷn â'r oes hon a'r byd a'i bethau, gadewch inni ystyried y cwestiwn a'i gyfeirio atom ni fel rhai sy'n arddel enw Crist. A beth am newid gair yn y cwestiwn a holi, 'Sut y dylem dreulio'r Nadolig eleni?' Gwyddom na fydd capel neu eglwys o fewn cyraedd pawb. Bydd henaint ac afiechyd yn lluddias llawer a bydd amgylchiadau anorfod yn amddifadu eraill o gymdeithas fendithiol y saint.

Eto, gellir treulio neu gamdreulio'r ŵyl, capelydda neu eglwysydda neu beidio. Faint o ysbryd yr ŵyl fydd yn ein calon? A awn ar bererindod mewn dychymyg a defosiwn at y preseb? Mynd â chân yr engyl yn melysu'n clyw a'i Seren Ef yn goleuo'n llwybr. 'Gweddi a mawl sy'n gweddu i mi,' meddai'r emynydd.

Gair aml yn ein hemynau yw treulio.

O boed im dreulio yn ddi-goll

o dan iau Crist fy mebyd oll,

meddai Pedr Fardd. Byddai hynny'n cynnwys Nadoligau bore oes. Caiff y 'danbaid fendigaid Ann' ein cyfarwyddo a'n cymell parthed yr ŵyl a phob gŵyl a gwaith:

O na chawn i dreulio 'nyddiau'n

fywyd o ddyrchafu ei waed.

Yng ngolau'r crud a'r groes y daw cân o fawl i'n calon a thangnefedd i'r enaid.

T. Elfyn Jones